

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
2 Mai 2019 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL:

Cynghorwyr: Math Williams, Peter Garlick, Gwyneth Thomas, Wynn Roberts, Dafydd Iwan, Mirain Llwyd Owen, Emyr Williams

Cadeirio: Geraint Strello

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

1. YMDDIHEURIADAU

Erddyn Davies

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION MIS EBRILL 2019

Cadarnhawyd cofnodion mis Ebrill yn dilyn newid i baragraff 4.3 ar awgrymiad y Cynghorydd Math Williams

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Clwb Ieuenctid Bontnewydd

Ysgrifennodd y Clerc at swyddogion Cyngor Gwynedd a'r aelod Cabinet dros blant a phobl ifanc, sef y Cynghorydd Dilwyn Morgan, gan fynegi awydd y Cyngor Cymuned i barhau i sefydlu Clwb Ieuenctid ym Montnewydd.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i drefnu cyfarfod yn fuan er mwyn trafod y mater ymhellach.

Cafodd y Cynghorydd Dafydd Iwan air efo Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru, Arfon Jones, er mwyn ceisio deall y rheswm fod eu dau gyflogai

ddim yn cael gweithio'n rhan amser i'r Clwb Ieuenctid. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu yn cysylltu'n fuan i drafod y mater.

4.2 Cerrig Afon Gwyrfaï a Llifogydd Bontnewydd

Ysgrifennodd y Clerc at Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn nodi pryder y gallai'r cerrig yn yr afon ddifrodi'r ffordd o Fontnewydd i Lanfaglan pe byddai yna lifogydd yn y darn yma o'r afon.

Disgwylir ymateb yn fuan.

4.3 Y Ganolfan

Cafwyd problem gyda'r system garthffosiaeth yn ddiweddar, oherwydd fod clytiau glanhau wedi eu rhoi yn un o'r toiledau. Rhaid oedd galw contractwyr allan ar frys i ddelio efo'r mater.

Cytunwyd y dylid gosod nodyn ger y toiledau yn dweud na ddylid gwaredu clytiau glanhau nag unrhyw ddeunyddiau anaddas eraill yn y toiledau.

Nid yw'r gwresogydd newydd yn y Cylch Meithrin yn gweithio. Mae cwynion wedi eu gwneud i AER, ond parhaeir i ddisgwyl iddynt ei drwsio. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at AER yn gofyn iddynt ei drwsio ar fyrder.

4.4 Cyfethol Aelod

Mae'r Clerc wedi hysbysebu eto am aelod i'w gyfethol i'r sedd wag. Hyd yn hyn does neb wedi dangos diddordeb.

Derbyniwyd llythyr gan y Cyngorydd Ifor Dylan Williams yn cynnig ei ymddiswyddiad. Mae yna sedd wag arall felly i'w llenwi. Bydd angen gofyn i Gyngor Gwynedd gychwyn y broses o osod hysbyseb yn rhoi cyfle i etholwyr ofyn am etholiad, cyn medru hysbysebu i gyfethol i'r sedd wag yma.

4.5 Datblygiad Cefnwerthyd

Bu'r mater o flaen Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ar Ebrill 29. Gohiriwyd y mater yn bennaf oherwydd pryderon goredrych ar eiddo presennol sydd yn lleol i ffin ogleddol y safle.

Ni chafwyd amser yn y Pwyllgor Cynllunio i drafod bwriad Watkin Jones i beidio gosod offer chwarae ar y safle, ond yn hytrach i gynnig swm ariannol o tua £6,000 i ddarparu offer chwarae mewn man arall ym mhentref Bontnewydd.

Felly fe gytunwyd i ofyn i gynrychiolydd o gwmni Watkin Jones fynychu cyfarfod o'r Cyngor Cymuned er mwyn cael trafodaeth bellach cyn y Pwyllgor Cynllunio nesaf.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Ebrill 2019

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £233.18 y mis

Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Costau Postio Clerc 12x61c - £7.32

5.3 Balans yn y banc 25 Ebrill 2019 £9346.69, ond £1591.60 i fynd allan - £7555.09

5.4 Derbyn taliad cyntaf Praesept 2019/20 Ebrill 29 £9250.00

6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

7. GOHEBIAETH

- Cylchlythyr Arloesi Gwynedd Wledig

Mae'r Cynghorydd Geraint Strello ar Fwrdd Arloesi Cymru Wledig, ac fe gytunodd i ddanfôn manylion pellach am eu gwaith, cyn ystyried cael rhywun o Menter Môn i ddod i siarad efo'r cyngor cymuned.

8. MATERION ERAILL

8.1 Lôn Fferm Glanrafon o Rhos Bach a Lôn Groes at Tyddyn Parthle

Mae hon wedi ei chlytio gan Gyngor Gwynedd yn ddiweddar, ond mae defnydd cyson o dractorau yn dirywio cyflwr y ffordd yn sylweddol. Mae'r ffordd yn lôn feics ddynodedig, ac mae'r tyllau yn y ffordd yn medru bod yn beryg i feiciau.

Cytunodd y Cyngorydd Peter Garlick i godi'r mater efo adran briffyrdd Cyngor Gwynedd.

Yn yr un modd mae cyflwr y ffordd i fyny o Lôn Groes hyd at Dyddyn Parthle angen sylw, a bydd y Cyngorydd Peter Garlick yn codi'r mater yma hefyd efo Cyngor Gwynedd.

8.2 Gwefan Cyngor Cymuned y Bontnewydd

Cytunwyd fod angen diwygio'r wefan a'i defnyddio i hyrwyddo mwy ar waith y cyngor cymuned. Mae angen ystyried sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol megis gweplyfr fel dull o hyrwyddo a rhannu gwybodaeth hefyd.

Penderfynwyd y dylid sefydlu is-bsyllgor i ymdrin â hyn, ac ystyried mynychu unrhyw gyrsiau addas sydd gan Un Llais Cymru.

8.3 Goryrru yn Llanfaglan

Nodwyd fod marciau coch wedi eu gosod ar y ffordd i mewn ac allan o bentref Saron. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gweld os y medrir gosod llinellau tebyg yn Llanfaglan er mwyn arafu traffig.

8.4 Ymddiswyddiad y Cyngorydd Ifor Dylan Williams

Derbyniwyd llythyr gan y Cyngorydd Ifor Dylan Williams yn cynnig ei ymddiswyddiad. Derbyniwyd yr ymddiswyddiad, ac fe gytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu i ddiolch i'r Cyngorydd Ifor Dylan Williams am ei waith a'i wasanaeth hir.

8.5 Prosiectau ar gyfer 2019/20

Cytunwyd y dylai'r materion yma gael blaenoriaeth dros y flwyddyn nesaf:-

- Clwb Ieuenctid Bontnewydd
- Safle We
- Gwefannau Cymdeithasol
- Defnydd cymunedol o'r tir y tu ôl i Gartref Bontnewydd

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF A'R CYFARFOD BLYNYDDOL

6 Mehefin 2019 am 7yh Y Ganolfan, Bontnewydd

